# COFNODION CYFARFOD ANARFEROL Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR 28 GORFFENNAF 2025

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr Morwenna Pugh (yn y Gadair yn absenoldeb y Cadeirydd)

Troy Maclean

Peter Jones

Geoffrey Jones

David Meirion Jones

Rory Francis

Dafydd Dafis

Dewi Prysor Williams

Mark Thomas (ar Zoom)

Sioned Graham-Cameron, Clerc

Ellen Pugh, Dirprwy Glerc

6 aelod o'r cyhoedd

**1. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Gareth Davies a Marc Lloyd Griffiths.

**2. Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw fuddiannau i'w datgan.

**3. Materion y Cadeirydd**

Esboniodd Y Cynghorydd Morwenna Pugh, yn y Gadair, y drefn ar gyfer y cyfarfod fel bod pawb yn deall sut y byddai'r cyfarfod yn cael ei redeg.

**4. Man Chwarae'r Parc**

Gofynnodd aelod o'r cyhoedd os oedd ymgynghoriad wedi ei wneud. Yr ateb oedd na, gan fod yr ardal yn lle chwarae hanesyddol ac nad oedd newid defnydd. Esboniodd y Dirprwy Glerc y sefyllfa parthed y goliau.

Nodwyd y byddai angen cael prisiau ar gyfer ffensys/rhwydi ar y bedair ochr ac yna cynnal Cyfarfod Anarferol i drafod y rhain. Cynigiodd Y Cynghorydd Mark Thomas ac eiliodd Y Cynghorydd Troy Maclean bod y cyfarfod Anarferol yn cael ei gynnal ar nos Wener 1af Awst 2025. O drafod y dyddiad, cafwyd na fyddai cworwm.

Cynigiodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd Y Cynghorydd David Meirion Jones bod y goliau yn cael eu clymu efo'i gilydd yn wynebu ei gilydd a chytunodd pawb.

Adroddodd Y Cynghorydd Mark Thomas bod trigolion Manod wedi cysylltu i holi ynglŷn â defnyddio Cae Manod ar ddydd Sul 17 Awst ar gyfer hwylddydd, ac y byddai cais yn dod i'r Cyngor.

DRAFT

5. **Cais am Gymorth Ariannol**

Derbyniwyd cais am gymorth ariannol gan Seren i brynu cychod gwenyn. Esboniwyd bod cap o £1,000.00 fel rheol ar y grantiau, ond bod disgresiwn i roi mwy.

Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones roi'r swm llawn, ac fe eiliwyd hyn gan Y Cynghorydd Geoffrey Jones.

Cynigiodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis roi £1,000.00, a'i eilio gan Y Cynghorydd Rory Francis. O roddi'r mater i bleidlais, cytunwyd rhoi £1,000.00 tuag at brynu cwch gwenyn.

6. **Caffi'r Pafiliwn**

Cynigiodd Y Cynghorydd David Meirion Jones y dylid cysylltu gyda'r Pensaer i ail wneud yr Atodlen Waith ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis. Cynigiodd Y Cynghorydd Geoffrey Jones ac eiliodd Y Cynghorydd David Meirion Jones y dylid rhoi awdurdod dirprwyedig i Is-bwyllgor y Caffi i gymryd penderfyniad ar yr atodlen. Ymataliodd Y Cynghorydd Mark Thomas, ond fel arall pleidleisiwyd i wneud hynny.

7. **Rhybudd o Gynnig**

Cyflwynwyd Rhybudd o Gynnig gan Y Cynghorydd Dafydd Dafis, fel a ganlyn:

*"Bod y Cyngor hwn yn:*

*Mynegi pryder dwys ynghylch yr argyfwng dyngarol parhaus yn Gaza a'r Lain Orllewinol, a'r colledion trychinebus o fywyd sifil ar bob ochr;*

*Galw am gadoediad uniongyrchol a pharhaol ym Mhalesteina ac Israel, yn unol ag apelau rhyngwladol am heddwch;*

*Sefyll mewn undod â phobl Palesteina a chydnabod eu hawl i ddiogelwch, urddas ac hunanbenderfyniad;*

*Galw ar Lywodraeth y DU i atal ar unwaith werthu neu drosglwyddo arfau a chyfarpar milwrol i Israel;*

*Penderfynu hedfan baner Palesteina yng nghanol y dref fel arwydd symbolaidd o gefnogaeth dros heddwch, cyfiawnder a dynoliaeth."*

Ymataliodd Y Cynghorydd Mark Thomas rhag pleidleisio, gan ddweud bod angen i'r Cyngor Tref fod yn anwleidyddol. Gofynnodd os oedd yn gyfreithiol i'r Cyngor hedfan y faner.

Cynigiodd Y Cynghorydd Dafydd Dafis ac eiliodd Y Cynghorydd Rory Francis bod Cyngor Tref yn hedfan baner Palesteina am y rhesymau a nodir uchod, a chytunodd pawb.

Cynigiodd Y Cynghorydd Peter Jones ac eiliodd Y Cynghorydd David Meirion Jones eu bod nhw eu dau yn trefnu bod y faner yn cael ei chodi a chytunodd pawb.

Cododd Y Cynghorydd David Meirion Jones y mater o gael rhaglen hedfan baneri, a chytunwyd y byddai'n trafod hyn gyda'r Clercod a llunio rhaglen ar gyfer y Cyngor.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.33pm.